

## Crimson Consultants

### Partner i Microsoft yn defnyddio cyllid arloesi i wthio'r ffiniau



(Ch i Dd) John Drew, Gary Williams a Lee Parton o Crimson Consultants

Mae **Crimson Consultants** o Abertawe wedi cynnal busnes meddalwedd llwyddiannus ers dros ddeng mlynedd, gan weithredu fel partner i feddalwedd busnes poblogaidd Microsoft – *Dynamics*, yn ogystal â datblygu eu datrysiadau meddalwedd eu hunain a'u rhoi ar waith, gyda chleientiaid yn y sectorau addysg a nid-er-elw yn bennaf. Bu penderfyniad Microsoft i gyflwyno uwchraddiad sylweddol i'w llwyfan rheoli cysylltiadau cwsmeriaid yn gatalydd ar gyfer prosiect trawsnewidiol. Gyda chymorth cyllid arloesi, roedd modd i'r busnes addasu'r portffolio meddalwedd oedd ganddo, yn ogystal â datblygu ystod o 'gyflymyddion' sydd wedi agor y drws i farchnadoedd newydd cyffrous.

Gan ei fod yn bartner swyddogol i Microsoft, roedd Crimson wedi adeiladu busnes llwyddiannus o amgylch cefnogi ei brif feddalwedd rheoli cysylltiadau cwsmeriaid, gan adeiladu ei gynnyrch newydd ei hun i weithio ar y cyd â'r llwyfan hwnnw, a theilwra datrysiadau pwrpasol ar gyfer cleientiaid oedd angen nodweddion ychwanegol.

Er bod uwchraddiad *Dynamics 2013* wedi gosod tipyn o her i fusnesau fel Crimson, roedd Gary Williams, sy'n bartner yno, yn gweld cyfle i ddatblygu cyfres o gynhyrchion fyddai'n helpu ei

#### Cyflawniadau Allweddol Crimson Consultants:

- Ail-ysgrifennu cynnyrch craidd mewn ymateb i uwchraddio plattform radical
- Creu cynnyrch newydd wnaeth helpu cleientiaid i fodloni heriau allweddol y diwydiant
- Dyblu'r trosiant, a'r gweithlu wedi tyfu o 20 i dros 50 mewn ychydig dros ddwy flynedd
- Ehangu yn y Dwyrain Pell drwy gwmni menter ar y cyd yn Tsieina

gleientiaid mewn addysg ôl-16 i addasu i'r heriau sy'n wynebu'r sector. Cysylltodd y busnes â thîm arloesi Llywodraeth Cymru a chael eu cefnogaeth i gais am gyllid trwy fenter SMART CYMRU a gefnogir gan yr Undeb Ewropeaidd. Golygai hyn y gallai'r busnes ymroi i ddatblygu datrysiadau meddalwedd newydd arloesol, tra roedd adnoddau eraill yn cael eu rhyddhau i 'ailysgrifennu' rhywfaint o'r feddalwedd oedd ganddo eisoes.

Aeth Crimson i'r farchnad gyda chyfres newydd o feddalwedd oedd wedi eu cynllunio gyda golwg ar gynorthwyo prifysgolion a cholegau addysg bellach i ddarparu yn unol â rhai o'u prif amcanion. Ymhlith y gofynion hyn, roedd rheoli cysylltiadau cynyddol bwysig gydag asiantiaid sy'n arwain ar waith recriwtio myfyrwyr tramor a thracio'r nifer cynyddol o gyfnodau lleoliad gwaith a ddarperir gan sefydliadau yn y Deyrnas Gyfunol fel rhan o'r agenda cyflogadwyaeth. Roedd modiwlau newydd hefyd i gefnogi ymdrechion i ddarparu addysg yn effeithiol i bawb, trwy reoli cyfleusterau, gwasanaethau a chefnogaeth i fyfyrwyr anabl.

Roedd y buddion tymor hir a'r rhychwant o allbynnau o'r prosiect yn cydweddu ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn arbennig yr ymdrechion i greu Cymru sy'n fwy llewyrchus ac yn fwy cyfartal. Yn sgil lefelau gwerthiant cynnar, llwyddodd Crimson i fwy na dyblu ei drosiant a thyfodd y gweithlu o tua 20 i dros 50 o staff mewn ychydig dros ddwy flynedd. Helpodd y prosiect y busnes i ennill cleientiaid newydd yn y sector annibynnol hefyd, yn cynnwys nifer o ysgolion rhyngwladol, ac i ehangu i'r Dwyrain Pell trwy bartneriaeth menter ar y cyd gyda Wellington College, Prifysgol Abertawe a Microsoft yn Wuxi (ger Shanghai, China).

"Roedd y cyllid arloesi yn allweddol i alluogi Crimson i ddarparu ymateb beiddgar, arloesol i'r heriau sy'n codi yn amgylchedd esblygol Addysg Uwch/Addysg Bellach. Fe helpodd ni i ddefnyddio ein gwybodaeth am y farchnad addysg ôl-16 a gweithredu strategaeth fusnes sydd wedi cryfhau ein rhychwant o gynnyrch 'oddi ar y silff', ac i ateb rhai o anghenion allweddol ein cwsmeriaid ar yr un pryd."

**Gary Williams, Crimson Consultants.**

**Busnes | Business  
Cymru | Wales**

I wybod rhagor am gyllid a chymorth  
gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000  
innovation@wales.gsi.gov.uk | businesswales.gov.wales/cy/innovation



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfa Datblygu  
Rhanbarthol Ewrop  
European Regional  
Development Fund**